# Rydym am wneud rhagor i ddileu hiliaeth a hybu mwy o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn treftadaeth

23/06/2020

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn lansio adolygiad eang o'i hagwedd at amrywiaeth a chynhwysiant.

Dywedodd y Prif Weithredwraig, Ros Kerslake, fod y protestiadau grymus sy'n digwydd ar draws y byd, gan gynnwys y DU, sy'n galw am ail-archwilio a gwneud yn iawn am anghydraddoldeb hiliol, wedi gwneud i ni fyfyrio ar ymdrechion y Gronfa a chyflymu'r newid.

"Fel cyllidwr mwyaf treftadaeth y DU, a ydym yn gwneud digon i agor treftadaeth i ystod ehangach o bobl?"

*Prif Weithredwraig, Ros Kerslake*



Llun: Prif Weithredwraig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Ros Kerslake

"Fel cyllidwr mwyaf treftadaeth y DU, a ydym yn gwneud digon i agor treftadaeth i ystod ehangach o bobl?

"Mae cynhwysiant wedi bod yn ffocws i'r sefydliad ers blynyddoedd lawer ac yn 2019 mabwysiadwyd canlyniad cynhwysiant gorfodol ar gyfer ein grantiau a datganiad cydraddoldeb y gweithlu wedi'i ddiweddaru. Mae'r rhain yn gamau i'r cyfeiriad iawn, ond credaf fod angen inni wneud llawer mwy."

## Lansio tasglu

Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ymgynghori'n eang – yn fewnol ac yn allanol – a byddwn yn gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn a ddysgwn.



Maria Adebowale-Schwarte

Bydd Maria Adebowale-Schwarte yn cadeirio tasglu i oruchwylio'r adolygiad. Mae Maria wedi bod yn Ymddiriedolwr yn y Gronfa ers 2018. Mae hi'n dod â 25 mlynedd o brofiad o weithio ar draws y sectorau treftadaeth, yr amgylchedd a grantiau, gan ganolbwyntio ar le cynhwysol a strategaeth adnewyddu trefol.

Meddai Maria: "fel Ros, mae'r digwyddiadau sy'n datblygu ledled y byd yn dilyn marwolaeth George Floyd wedi effeithio'n ddwfn arnaf. Mae wedi rhoi cyfle i lawer o unigolion a sefydliadau feddwl a ydynt yn rhan o'r broblem ac yn bwysicach, a ydynt am fod yn rhan o'r ateb. "

> "Rwy'n croesawu penderfyniad y Gronfa i gymryd camau pendant i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hintegreiddio'n well, o fewn y sefydliad ac fel ariannwr."
>
> *Maria Adebowale-Schwarte*

"Rwy'n croesawu penderfyniad y Gronfa i roi'r adolygiad yma ar waith ac i gymryd camau pendant i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hintegreiddio'n well, o fewn y sefydliad ac fel ariannwr."

Bydd y tasglu yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

# Creu cymdeithas decach

Dywedodd Ros: "Mae treftadaeth gyda chynhwysiant wrth ei chalon yn hynod rymus o ran dod â phobl at ei gilydd a chreu cymdeithas decach i bawb."

"Rwy'n falch o'r gwahaniaeth rydyn ni eisoes wedi gallu ei wneud – o fuddsoddi £4m i sefydlu'r archifau diwylliannol DU, cadw straeon o Genhedlaeth Windrush a phrofiadau pobl o dad-droseddoli cyfunrywioldeb yng Ngogledd Iwerddon, i ariannu prosiectau treftadaeth sy'n helpu pobl i oresgyn unigedd a gwella eu hiechyd meddwl – ond rwy'n benderfynol y byddwn yn gwneud mwy.

"Mae'r adolygiad yma'n ymrwymiad i adeiladu amgylchedd sy'n rhydd rhag hiliaeth ac anghydraddoldeb."



## rdeb hefyd mewn ...



## nd celebration

Outside view of Black Cultural Archives building in Brixton

## Black Cultural Archives opens to the public